# Rheoli Adeiladu

## Cyflwyniad

Mae rheoli adeiladu'n cyfeirio at y gofynion i oruchwylio a rheoli gwaith adeiladu, a gwasanaethau a gyflawnir gan awdurdod lleol neu arolygwyr cymeradwy. Prif bwrpas rheoli adeiladu yw sicrhau bod gwaith adeiladu yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu o dan Ddeddf Adeiladu 1984. Ei ddiben yw gwneud yn siŵr bod safonau adeiladu gofynnol yn cael eu cwrdd i warchod iechyd a diogelwch pobl yn ac o gwmpas yr adeiladau. Gallwn ond edrych ar rôl y Cyngor mewn ceisiadau Rheoliadau Adeiladu a materion Rheoli Adeiladu. Ni allwn ystyried cwynion yn ymwneud â gwaith arolygwyr cymeradwy y mae modd i ddatblygwyr eu cyflogi i gyflawni'r weithred rheoli adeiladu (er mai dim ond cyngor, fel yr Awdurdod Rheoli Adeiladu, sy'n gallu dyfarnu tystysgrif gwblhau).

## Yr hyn gallwn ei wneud

Gallwn edrych:

- i weld a yw cyngor wedi cymryd camau rhesymol i asesu cynlluniau ac i arolygu gwaith adeiladu yn y gwahanol gyfnodau i benderfynu a ydyw'r datblygiad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu ai peidio;
- ar gŵyn bod cyngor wedi gwneud camgymeriad yn cymeradwyo Rheoliadau Adeiladu a dyfarnu tystysgrif gwblhau am waith na ddylai fod wedi cael ei gymeradwyo;
- i weld a ydyw cyngor wedi ystyried cymryd camau gorfodi mewn ffordd briodol yng nghyswllt gwaith adeiladu nad yw'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu ac sy'n effeithio ar drydydd parti ai peidio.

## Yr hyn nad ydym yn gallu ei wneud

Ni allwn edrych:

- ar benderfyniad cyngor lle mae gan yr ymgeisydd hawl i apelio i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn berthnasol, er enghraifft, pan fydd cais am Reoliadau Adeiladu'n cael ei wrthod. Disgwylir i ymgeiswyr ddefnyddio'r hawl hon i apelio. Gallant hefyd ofyn am benderfyniad i ddatrys anghydfod neu ofyn am eithriad rhag gofyniad llym;
- ar gŵyn ynghylch difrod a achoswyd gan waith adeiladu cymydog, sydd wedi'i gymeradwyo mewn ffordd briodol gan y cyngor. Byddai hyn yn cael ei ystyried yn ddadl breifat rhwng yr achwynydd a'r cymydog;
- ar gwynion ynghylch diffyg yn yr eiddo a oedd yn bodoli cyn ei brynu ac a fyddai wedi cael ei ganfod mewn arolwg;

- ar gwynion yn ymwneud ag eiddo sydd dan warant gyfredol gan y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC).

## Materion i'w cadw mewn cof

Y tirfeddiannwr neu'r datblygwr sydd â'r dyletswydd terfynol i sicrhau bod y strwythur a godwyd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu.

Nid yw hysbysiad cymeradwyo neu dystysgrif cwblhau a roddir gan gyngor yn warantiad na'n warant. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r camau rhesymol y dylai fod wedi eu cymryd i arolygu'r gwaith.

Barn y llysoedd yw nad yw awdurdodau lleol sy'n cyflawni'r rôl Rheoli Adeiladu yn gyfrifol am unrhyw golled economaidd o ganlyniad i'r camau a gymerir ganddynt.

## Gwybodaeth bellach

Mae modd cael gwybodaeth am Reoli Adeiladu ar www.planningportal.gov.uk

Mae'n bosib bod gwybodaeth am faterion yn ymwneud â Rheoli Adeiladu ar gael ar wefan y Cyngor ei hun hefyd.

## Cysylltu â ni

Os ydych yn ansicr a fyddwn yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni, drwy ffonio 0300 790 0203.

# Hawdd ei Ddarllen

Rheoli Adeiladu